

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn a chyflwynwn hwy i ofal Duw, gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan, ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Mae'n dda cael adrodd fod Gwyneth Griffiths (Henllan) wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref o'r ysbyty, fel ag y mae Edith Maloney (Henllan) sydd wedi mynd am gyfnod i gartref Yr Hen Ddeondy, Llanelwy. Gweddïwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch yno dros yr wythnosau nesaf. Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Kate Davies (Coed Môr, Abergele); Mrs Morfudd Williams a Mrs Kitty Parry (Dolwen, Dinbych); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Eirwyn a Kat Edwards (Groes) ar enedigaeth mab, Deian John, brawd bach i Iorwerth Lloyd. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Galw Gweinidog

Llawenydd yw cael eich hysbysu fod y Pwyllgor Bugeiliol yn gytûn yn eu dymuniad i alw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled i olynu'r Parch. Aneurin Owen, a bod Rhodri wedi datgan ei barodrwydd i'w enw gael ei roi gerbron yr eglwys. O ganlyniad, byddwn yn trefnu i gynrychiolwyr o'r Henaduriaeth i ymweld â phob eglwys sy'n perthyn i'r Ofalaeth Fro i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Rhodri yn weinidog ar yr eglwys hyn, fel ag y bydd aelodau Hiraethog yn pleidleisio yn eu cyfarfod eglwys hwythau. Bwriedir cynnal y pleidleisio yn ystod yr oedfaon gaiff eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

Mai 15fed:	Cefn Berain, Cefn Meiriadog, Llanefydd a Llanfair
Mai 22ain:	Henllan, Saron, Groes a Tanyfron
Mai 29ain:	Llansannan, Peniel a Nantglyn

I ddod

- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn ar Fai 15fed am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Teresa Wynne, Rhuthun.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mai 20fed – 21ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.

Darllenid Wythnos Nesaf

Actau 1:1-11 (BCND tud.128 / BCN tud.118)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Mai 2016

Darllenid y Dydd

Actau 24:24-26

(BCND tud.159 / BCN tud.145)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw. Wrth edrych yn ôl dros newyddion yr wythnos, mae ein meddyliau yn siŵr o fod gyda holl gefnogwyr Lerpwl sydd wedi profi emosiynau dwys iawn yn dilyn y farn am achos marwolaeth 96 o bobl yn Hillsborough 1989. Dwi'n siŵr ein bod yn cydymdeimlo hefo'u colled a'u tristwch trwy'r digwyddiad erchyll hwnnw.

Yr hyn wnaeth fy nharo i yn ystod y gohebu o Lerpwl oedd y faner oedd i'w gweld dros y stadiwm – “TRUTH” a “JUSTICE”, wedi'i arddangos yn hyderus ac yn gadarn. Wrth feddwl cymaint mae 'gwirionedd' a 'chyfiawnder' yr achos llys wedi ei olygu i deuluoedd y rhai gollodd eu bywydau, dwi'n meddwl am y cadernid a'r hyder sydd ganddon ni yn y Gwirionedd a'r Cyfiawnder sydd i'w gael yn Iesu Grist. Dwi'n cael fy atgoffa o'r darn yna yn Rhufeiniaid lle mae Paul yn cadarnhau beth ydi bywyd i'r Cristion yn yr Eglwys:

“Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol. Dim byd ym mhellteroedd eitha'r gofod nac yn nyfnderoedd y ddaear! Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!” (Rhuf 8:38-39)

Dyna eiriau pwerus i ni fel Cristnogion. Dyna i chi wirionedd rhyfeddol. Does dim ar y ddaear, na thu hwnt i'r ddaear yn gallu ein gwahanu oddi wrth gariad Crist. Dim byd o'r byd ffisegol, na dim profiad da ni'n mynd trwyddo – da a drwg – all ein gwahanu ni o afael cariad ein Duw a'n Tad trwy ein Harglwydd Iesu. Dydy hyd yn oed marwolaeth, y broses ffisegol mwyaf terfynol a brawychus sydd yn ein byd, yn medru ein gwahanu ni rhag y cariad yna!

Mae Paul yn pwysleisio yn gryf iawn hefyd gyflwr ein cyfiawnder ni. Rydym ni wedi ein cyfiawnhau yn unig trwy ffydd yn Iesu Grist. Dim ond trwy Iesu a'i fuddugoliaeth dros bechod yr ydan ni wedi cael cyfiawnhad. Nid trwy unrhyw broses arall, ond trwy aberth Iesu ar y groes yn unig y medrwn ni, fel Cristnogion, gael ein cyfiawnhau. Dyma ydy'r unig bŵer yn y bydysawd sy'n ddigon i'n gwaredu o'n pechodau ac i dalu'r gost ar ein rhan. Ac mi rydan yn diolch ac yn moli ein Duw oherwydd y rhyfeddod yma.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Sarah

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af}
- Mawrth – 3^{ydd}
- Mercher – 4^{ydd}
- Iau – 5^{ed}
- Gwener – 6^{ed}
- Sadwrn – 7^{fed}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, a bydd y Parch. Meirion Morris yn pregethu.
 - ****SYLWCH**** Ni fydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Bugeiliol** heno fel a fwriadwyd. (Bydd y cyfarfod nesaf ar Mai 12^{fed}.)
 - **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
 - **Sasiwn Chwirydd Y Gogledd** yn Eglwys Unedig Jerusalem, Bethesda. Bydd Mererid Mair a Llinos Mai, Eglwys Noddfa, Caernarfon yn annerch am 2.00, a'r Athro Mari Lloyd Williams, Waengoleугоed yn annerch am 5.30. Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn. Os oes gennych ddiddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261, os gwelwch yn dda. Daeth cais gan Dr Mari hefyd i ddod â nwyddau newydd hefo chi i'r Sasiwn i'w gwerthu yn y siop sydd ganddynt yn Waengoleугоed (e.e. dilladau bach, hancesi poced, sebon, anrheg mewn bocs, addurniadau, papur sgwennu, hetiau, sgarffiau ayb, neu anrhegion nad ydych eu hangen).
 - **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 7.30. (Paned am 7.15.)
 - **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
 - **Darlith Dyrchafael** – “Sut y cawsom y Beibl?” gyda'r Parch. Ddr Watcyn James yn darlithio yn Festri Llansannan am 7.30. Croeso i bawb.
 - **CIC +** yn Llansannan am 7.30.
 - **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Cynhelir gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 1^{af}
- Mercher – 4^{ydd}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymorth Cristnogol am 7.15 yn Ystafell y Blaenoriaid.
- Bydd aelodau Eglwys Hiraethog yn cyfarfod yn y Granar am 6.45. Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 (*sylwch ar y newid*) a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Saron am 2.00 pryd y bydd Elgan ac Elen Jones yn cyflwyno Anni Glynne i'w bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 a Mr Peter Smith yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1^{af}
- Gwener – 6^{ed}
- Sul nesaf – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.